# 11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

## Cynllunio Ymgyrch

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ymgyrchu a lobïo?
3. Beth mae'r Comisiwn Elusennau yn ei ddweud am Ymgyrchu?
4. Cynllunio ymgyrch – Materion i'w hystyried
5. Gwybodaeth bellach


Bydd y daflen wybodaeth hon yn trafod y gwahaniaeth rhwng ymgyrchu a lobïo, ynghyd ag awgrymiadau ar sut dylai grwpiau'r trydydd sector gynllunio eu hymgyrch, ystyriaeth o Ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar y pwnc, a ble i gael rhagor o wybodaeth.

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ymgyrchu a lobïo?

Yn aml, caiff y termau ymgyrchu a lobïo eu defnyddio'n gyfnewidiol, ond mae'n werth ystyried y gwahaniaeth rhwng y termau a meddwl a yw un, neu'r llall, neu'r ddwy weithred yn debygol o fod yn addas at eich dibenion.

Lobïo yw pan fydd unigolion a mudiadau yn ceisio dylanwadu ar farn penderfynwyr gwleidyddol.



Llun: Cyfarfod ymgyrch grŵp

Daw'r enw o lobïau neu gynteddau Senedd y DU ble mae Aelodau Seneddol a chymheiriaid yn ymgynnull cyn ac ar ôl trafodaethau yn siambrau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

Yn draddodiadol, mae pobl sydd eisiau dylanwadu ar farnau Aelodau Seneddol neu gymheiriaid wedi mynd i'r lobïau i geisio darbwyllo aelodau o ddilysrwydd safbwynt penodol. Y dyddiau hyn, fodd bynnag, defnyddir y term lobïo'n aml wrth gyfeirio'n fwy penodol at waith cwmnïau preifat a elwir yn lobïwyr, a gyflogir gan fudiadau i gyflwyno'u barn i benderfynwyr gwleidyddol.

Fodd bynnag, gall y gwaith hwn hefyd gael ei wneud gan swyddogion ymgyrchu, swyddogion materion cyhoeddus neu swyddogion seneddol y sector gwirfoddol er mwyn cael cefnogaeth ar gyfer gwaith ymgyrchu elusen a dylanwadu ar benderfyniadau Seneddol (neu'r **Senedd**).

Ar y llaw arall, ymgyrchu yw'r broses o lunio a defnyddio camau gweithredu wedi'u trefnu a'u cynllunio ar faterion penodol gyda'r nod o newid polisïau ymddygiad grwpiau a/neu sefydliadau. Felly, gellid defnyddio technegau lobïo fel rhan o'r broses ymgyrchu ehangach.

# Beth mae'r Comisiwn Elusennau yn ei ddweud am Ymgyrchu?

Mae rhai elusennau cofrestredig yn pryderu ynghylch faint o waith ymgyrchu y gallant ei wneud, gan gredu nad yw'r **Comisiwn Elusennau'n** caniatáu gweithgareddau ymgyrchu.

**Dolen Allanol**

Mae'r Comisiwn Elusennau yn cyflwyno canllawiau trylwyr iawn ar y mater hwn yn eu dogfen:
CC9 – Siarad Allan – Canllawiau ar Ymgyrchu a Gweithgareddau Gwleidyddol i Elusennau

Dylech wirio'r rhain os oes gennych unrhyw amheuaeth, ond yn gyffredinol, barn y Comisiwn yw bod ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol (ond nid gweithgareddau gwleidyddol pleidiau) yn ddilys ac yn rhan werthfawr o weithgareddau elusen pan fyddant yn cael eu gwneud i gefnogi cyflawniad ei diben elusennol. Ond ni ddylai fod yn weithgaredd parhaus na'r unig weithgaredd y mae'r elusen yn ei wneud, ac ni ddylai ddod yn rheswm dros fodolaeth yr elusen.

---

Mae'r Comisiwn yn edrych yn ffafriol ar waith ymgyrchu yng nghyd-destun ceisio cyflawni nodau elusennol, ac mae crynodeb o'r farn hon yn y datganiad hwn gan y Comisiwn:

> **"Mae ymgyrchu, eiriolaeth a gweithgareddau gwleidyddol i gyd yn weithgareddau cyfreithlon a gwerthfawr y gall elusennau ymgymryd â nhw. Mae gan nifer o elusennau gysylltiadau cryf â'u buddiolwyr, ac yn fwy cyffredinol â'u cymunedau lleol, gan fynnu lefelau uchel o ymddiriedaeth a hyder cyhoeddus, ac maent yn cynrychioli llu o achosion amrywiol. Oherwydd hynny, maent mewn safle unigryw i ymgyrchu a phleidio ar ran eu buddiolwyr. Pan fydd elusennau yn ceisio newid y gyfraith neu bolisi'r llywodraeth, mae rhai rheolau yn gymwys."**

---

# Cynllunio Ymgyrch – Materion i'w hystyried

Y gair hollbwysig yma yw 'cynllunio'. Dylech yn bendant dreulio amser yn cynllunio eich ymgyrch cyn ymgymryd â gweithgareddau ffwrdd-â-hi. Bydd cymryd yr amser i feddwl am holl gylchred yr ymgyrch yn rhoi siawns uwch i chi o lwyddo.

Un o beryglon cyffredin gweithgareddau ymgyrchu yw mynd ati ar unwaith i feddwl am ba dechnegau a thactegau ymgyrchu i'w defnyddio heb wneud y gwaith cynllunio yn gyntaf. Dylai dewis techneg fod yn un o gamau olaf y broses gynllunio, oherwydd dylai technegau ddeillio o'r holl waith cynllunio a chael eu llywio ganddo.

Isod ceir rhai o'r prif faterion y dylech feddwl amdanynt wrth gynllunio eich ymgyrch:

### Dewiswch eich mater yn ofalus

- Pa faterion sy'n bwysig i'ch grŵp cleient/rhanddeiliaid?
- A oes cyfle i gyflawni newid – beth sy'n digwydd yn yr amgylchedd allanol sy'n gwneud hon yn adeg dda (neu wael) i ymgyrchu?
- A oes cytundeb ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud?
- A allwch chi gyflwyno datrysiad yn hytrach na phroblem?

Mae ymgyrchu dros ddatrysiad yn haws o lawer, e.e. pethau penodol rydych chi eisiau eu gweld yn newid neu'n cael eu rhoi ar waith, yn hytrach na dim ond dweud nad ydych chi'n hoffi pethau fel y maen nhw ar hyn o bryd.

### Adnoddau/Deunyddiau

- Pa adnoddau sydd gennych chi
  e.e. capasiti staff/gwirfoddolwyr a chefnogwyr?
- Pa adnoddau sydd eu hangen arnoch
  e.e. deunyddiau ymgyrchu, cyhoeddiadau?
- A oes gennych chi gyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer y gwaith hwn?

## Datblygwch sylfaen dystiolaeth gref

- Mae dilysrwydd yn hanfodol – a yw eich tystiolaeth yn deillio o arbenigedd technegol a/neu brofiad perthnasol?
- A oes angen i chi gomisiynu ychydig o waith ymchwil neu wneud ychydig o waith ymchwil eich hun?
- A oes ffynonellau eraill o wybodaeth/ystadegau y gallwch chi eu defnyddio?

Gwnewch yn siŵr fod eich ymchwil yn berthnasol, e.e. mae angen ystadegau Cymru arnoch ar gyfer ymgyrch yng Nghymru. Ceisiwch ddod o hyd i astudiaethau achos ac enghreifftiau go iawn – gall y rhain fod yn hynod bwerus ac maen nhw'n fwy tebygol o gael eu cyhoeddi gan y cyfryngau na naratif diflas.

## Sefydlwch eich Cynulleidfaoedd Targed

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n mynd at y bobl sydd â'r gallu i newid pethau - mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cyd-destun datganoledig pan fo Cymru'n gyfrifol am rai pethau a'r DU'n parhau i fod yn gyfrifol am bethau eraill
- Efallai yr hoffech chi ystyried prif dargedau a thargedau eilaidd
- Meddyliwch am ffyrdd o ddylanwadu ar y cynulleidfaoedd hyn – dyma le gallwch chi ddechrau meddwl a fyddai technegau lobïo'n briodol

## Pennwch Amcanion a Negeseuon Allweddol yr Ymgyrch

- Fframiwch eich negeseuon yn briodol ar gyfer eich cynulleidfa(oedd). Er enghraifft, gallai papur newydd tabloid ymateb yn well i stori ag elfen ddynol, ond gallai fod angen gwybodaeth fwy ffeithiol o ffynonellau clir ar weision sifil
- Byddwch yn benodol - meddyliwch am rai newidiadau penodol iawn yr hoffech chi eu gweld ac ewch ati i ddatblygu rhai negeseuon allweddol y gellir eu cyflwyno'n syml ac yn effeithiol
- Ceisiwch ganolbwyntio ar ddatrysiadau. Cynigiwch rywbeth y mae'n rhaid i benderfynwyr ei wrthwynebu

### Ystyriwch Gynghreiriau / Rhanddeiliaid Posibl

- Gall cynghreiriau fod yn effeithiol iawn, yn enwedig os ydynt yn rhai traws-sector a/neu'n annisgwyl
- Pa grwpiau eraill sy'n cael eu heffeithio gan eich problem?
- Pwy allai fod â diddordeb yn hyn? Gall cynghreiriau gwleidyddol fod yn ddefnyddiol, edrychwch ar feysydd diddordeb gwleidyddion

### Ystyriwch wrthwynebiad posibl i'ch ymgyrch ac unrhyw rwystrau

- Pwy allai wrthwynebu eich ymgyrch – a allwch chi weithio gyda nhw o'r dechrau i liniaru pryderon? Os na, a allwch chi ragweld eu pryderon a bod yn barod i ymateb?
- Byddwch yn ymwybodol o'r amgylchedd allanol a sut gall newidiadau gwleidyddol effeithio ar eich ymgyrch

### Datblygwch gynllun o weithgareddau gydag amserlenni

Beth yn gwmws ydych chi'n mynd i'w wneud? Mae lliaws o dechnegau ymgyrchu - dewiswch y rhai sy'n iawn i chi, gan ystyried eich capasiti, eich problemau, eich cynulleidfa a'ch amcanion.

Gellir gosod y technegau hyn mewn dau gategori cyffredinol, yn ôl a ydych hi'n bwriadu cynnal ymgyrch "mewnol" neu "allanol". Ymgyrch mewnol yw lle fyddech chi'n defnyddio sianeli sefydledig (cyfarfodydd anffurfiol ac ati) i lobïo eich targed. Mae ymgyrch allanol yn fwy gwrthwynebol, yn seiliedig ar ymladd i gael eich llais wedi'i glywed trwy ddefnyddio cefnogaeth gyhoeddus am newid.

### Ystyriwch sut byddwch chi'n cyflwyno negeseuon eich ymgyrch ac yn ennyn cefnogaeth

- Sut ydych chi'n bwriadu defnyddio'r cyfryngau, os o gwbl?
- A allech chi ddatblygu e-ymgyrch?
- Sut gallech chi ddefnyddio'r rhyngrwyd?
- A ydych chi'n llunio adroddiadau cyhoeddusrwydd ac, os felly, beth ydych chi'n mynd i'w wneud â nhw?
- Sut byddwch chi'n lansio'r ymgyrch?

### Ewch ati i fonitro'r cynnydd a gwerthuso

- Beth fyddech chi'n ei ystyried yn llwyddiant?
- Treuliwch amser yn myfyrio ac yn gwerthuso ac addaswch yr ymgyrch os oes angen
- Ceisiwch fonitro ble mae eich ymgyrchu wedi cael effaith e.e. os byddwch yn anfon briff i'r Senedd. Gwiriwch i weld a wnaeth aelodau ddyfynnu ohono neu ei ddefnyddio.
- Dathlwch bob llwyddiant, ond cofiwch y gall gymryd amser hir iawn i gyflawni newid

## Gwybodaeth bellach

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
**Ffôn: 0800 2888 329**
https://wcva.cymru/cy/hafan/

**Gwefan y Comisiwn Elusennau (Saesneg yn Unig)**
https://www.gov.uk/government/organisations/charity-commission

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.